Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD / ADRODDIAD

**DIBEN: PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD – CYF. DL1054**

**Amseru: Arferol**

**Teitl:** Prynu tir yn Llanelli ar gyfer Dalfa newydd Sir Gaerfyrddin.

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Ystadau / Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae'r ddalfa yn Waunlanyrafon, Llanelli yn heneiddio, gydag wyth mlynedd economaidd ar ôl ar y mwyaf. Gan hynny, pennwyd Rhydaman fel y prif gyfleuster dalfa yn Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, does dim digon o le ynddi i fod yr unig gyfleuster yn Sir Gaerfyrddin, ac nid yw'n effeithlon rhedeg dau gyfleuster (yn Rhydaman a Llanelli). Gan hynny, ymchwiliwyd i ddewisiadau amgen.

**Argymhelliad:**

Prynu tir ym Mhenprys, Llanelli ar gyfer adeiladu dalfa newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion NOLAN ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod / Dydw i ddim yn cymeradwyo'r cais uchod / Nodaf y wybodaeth yn yr adroddiad (dileer fel y bo'n briodol)

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 3/10/2017**

1.6 Mae GPN y dewisiadau gwahanol yn debyg iawn. Mae hyn yn bennaf oherwydd y ffaith bod y cyfleuster presennol yn Waunlanyrafon yn dod i ddiwedd ei oes economaidd ddefnyddiol, felly mae unrhyw ddewisiadau uchod lle mae angen cyfleuster newydd naill ai angen i gyfleuster newydd gael ei adeiladu nawr neu ddisodli'r cyfleuster yn Waunlanyrafon mewn wyth mlynedd.

1.7 Ystyrir bod y safle presennol yn Waunlanyrafon mewn perygl o ddioddef llifogydd (diffinnir y safle fel parth C2 gan Asiantaeth yr Amgylchedd). Dywed Nodyn 15 Cyngor Technegol Polisi Cynllunio Cymru: Perygl Llifogydd a Datblygu na ddylai datblygiad (newydd) ar gyfer y gwasanaethau brys gael ei ystyried ar ardaloedd sydd wedi'u dosbarthu'n barthau C2. Gan hynny, deellir y byddai'n bosibl adnewyddu'r cyfleuster presennol yn Waunlanyrafon, ond nid ailadeiladu ar y safle. Gyda dim ond rhyw wyth mis o ddefnydd economaidd ar ôl yn y ddalfa yn Waunlanyrafon, a diffyg tir addas arall yn cael ei ddal gan y Comisiynydd, mae angen nodi a phrynu tir newydd yn Sir Gaerfyrddin er mwyn darparu cyfleusterau dalfa ar gyfer y dyfodol agos.

1.8 Rydyn ni wedi chwilio'n eang am dir addas yn Sir Gaerfyrddin, ac mae dewisiadau'n eithaf cyfyng. Yn bennaf, mae tir sydd ar gael naill ai ar orlifdir, dan berchnogaeth breifat a ddim ar gael ar werth, neu wedi'i neilltuo gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer defnydd amgen.

1.9 Fodd bynnag, daethpwyd o hyd i un darn o dir sy'n addas ar gyfer ein hanghenion gweithredol, sydd ddim ar orlifdir, ac sydd ar gael i'w brynu wrth Gyngor Sir Gaerfyrddin.

1.10 Tra bod gwaith pellach yn digwydd er mwyn sefydlu'r achos busnes llawn, oherwydd prinder tir addas yn Sir Gaerfyrddin, argymhellir prynu tir ym Mhenprys, Llanelli, er mwyn darparu'r cyfle ar gyfer adeiladu dalfa newydd yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol.

## 2 Argymhelliad

2.1 O ystyried:

- y bydd angen adeiladu dalfa newydd yn yr wyth mlynedd nesaf; ac
- nid yw'r Comisiynydd yn berchen ar dir ar hyn o bryd sy'n addas ar gyfer datblygu cyfleuster o'r fath; ac
- nid oes llawer o dir addas ar gael yn Sir Gaerfyrddin

argymhellir prynu'r tir ym Mhenprys, Llanelli.

## 3 Camau Nesaf

3.1. Mae angen cynnal arolygon a gwaith ymchwilio tir pellach ym Mhenprys er mwyn cadarnhau ymhellach (neu beidio) ei addasrwydd ar gyfer datblygu.